Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Y Cynghorydd / Councillor Bryan Davies
Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

| | |
|---|---|
| Dyddiad<br>Date | 23 Rhagfyr, 2024 |
| Gofynnwch am<br>Please ask for | [redacted] |
| Llinell uniongyrchol<br>Direct line | [redacted] |
| Fy nghyf<br>My ref | BD/LSE |
| Eich cyf<br>Your ref | |
| Ebost<br>Email | [redacted] |

Anfonwyd drwy e-bost yn unig:
ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru

Annwyl Syr / Madam,

**YMATEB I YMGYNGHORIAD AR GYNIGION DIWYGIEDIG AR GYFER 16 ETHOLAETH NEWYDD YN Y SENEDD**

Diolch yn fawr am y cyfle i gyflwyno ein barn ar y cynigion diwygiedig ar gyfer 16 etholaeth newydd y Senedd. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar etholaeth arfaethedig Ceredigion Penfro ac egwyddorion dosbarthu etholaethau.

Mae cael ei gyfyngu i ffiniau etholaethau Seneddol y DU wedi arwain at greu ardaloedd daearyddol mawr ar gyfer y parau, sydd wedi creu etholaethau newydd y Senedd. Mae hyn yn cynnwys etholaeth arfaethedig Ceredigion Penfro, sydd ymhlith y mwyaf o ran ei daearyddiaeth, gyda phellter o 90 milltir o'r gogledd i'r de, gydag amser teithio amcangyfrifedig o 2 ½ awr. Mae cymunedau Ceredigion Preseli a Chanolbarth a De Sir Benfro hefyd yn wahanol iawn o ran iaith, diwylliant, cysylltiadau lleol ac ati.

Mae cael etholaeth mor fawr yn debygol o arwain at golli cysylltiad rhwng yr aelodau etholedig a'u hetholwyr. Gallai hyn, yn ychwanegol at yr holl newidiadau eraill y mae'n rhaid i etholwyr eu deall, arwain at lai o bleidleisio.

Rydym yn cytuno gydag enw'r etholaeth fel mae'n sefyll sef Ceredigion Penfro a chroesawn y ffocws ar y fersiwn Gymraeg fel yr enw unigol.

Rydym yn deall mai ychydig iawn o opsiynau sydd ar gael i chi mewn perthynas â'r adolygiad hwn oherwydd bod y Ddeddf yn datgan y dylai'r Comisiwn baru 21 o etholaethau Senedd y DU; fodd bynnag, edrychwn ymlaen at gael cynigion amgen ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2030 lle rhoddir mwy o ystyriaeth i ffactorau eraill fel iaith, diwylliant, cysylltiadau lleol ac ati.

Yn gywir,

[redacted]

Y Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion